Factsheet 3

Communities First Facts

COMMUNITIES FIRST PARTNERSHIPS

What is a Communities First Partnership?

A Communities First Partnership is a group of people, made up from representatives of key organisations working in an area and community representatives. The Partnership will be responsible for making Communities First work for their area. The Communities First Co-ordinator for an area supports the Partnership, helps the Partnership develop and carries out work on its behalf.

How is a Partnership formed?

Ideally, a Partnership will be developed from Steering groups in a particular Communities First area. Steering groups can act as working groups which discuss various issues (such as the environment, transport, leisure facilities etc), making recommendation or putting forward ideas to the Partnership who are responsible for the final decisions.

What is the structure of a Partnership?

The structure of a Partnership is very important. The Partnership must be made up from 1/3 Community representatives, 1/3 Statutory representatives (such as, Police, Councillors, Health), and 1/3 Business and Voluntary representatives (for example, local voluntary organisations, national voluntary organisations, and local business people).

ROLES WITHIN A PARTNERSHIP

For Partnership meetings to run smoothly and to get things done it important that there are clearly defined roles for those on the partnership.

A strong chairperson, to lead meetings, ensuring that all people are able to give their opinions and the smooth running of meetings is vital.

To ensure that accurate records of meetings are kept (important due to the accountability of the Partnership), a secretary/minute taker is required for each meeting. The minutes of a meeting should be available to all Partnership members before the following meeting, and any errors amended at the next meeting.

Training will be available for Partnership/Steering Group members, and **Partnership/Steering Group meetings are open to the public.**

More Information

If you want to get involved in Communities First in your area, please contact the Communities First Team on 01639 873030; or Andrew Millard, the Communities First Network Officer (CVS) on 01639 631387.

Disclaimer: This newsletter has been compiled by Neath Port Talbot County Borough Council's Communities First Team. The views expressed within this factsheet do not necessarily represent the views of NPTCBC, its Members or its Partners, or other parties involved.

Taflen Ffeithiau 3

Ffeithiau Cymunedau yn Gyntaf

PARTNERIAETHAU CYMUNEDAU YN GYNTAF

Beth yw Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf?

Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yw grŵp o bobl sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau allweddol sy'n gweithio mewn ardal a chynrychiolwyr cymunedol. Bydd y Bartneriaeth yn gyfrifol am sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf yn llwyddo yn eu hardal hwy. Mae'r Cydlynydd Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer ardal yn cefnogi'r Bartneriaeth, yn helpu'r Bartneriaeth i ddatblygu ac yn ymgymryd â'r gwaith ar ei ran.

Sut mae Partneriaeth yn cael ei ffurfio?

Yn ddelfrydol, bydd Partneriaeth yn cael ei datblygu o Grwpiau Llywio mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf benodol. Gall grwpiau llywio weithio fel gweithgorau sy'n trafod materion amrywiol (fel yr amgylchedd, cludiant, cyfleusterau hamdden etc), gan gyflwyno argymhellion neu syniadau i'r Bartneriaeth sy'n gyfrifol am y penderfyniadau terfynol.

Beth yw strwythur Partneriaeth?

Mae strwythur Partneriaeth yn bwysig iawn. Rhaid i'r Bartneriaeth gynnwys 1/3 o gynrychiolwyr Cymunedol, 1/3 o gynrychiolwyr Statudol (fel yr Heddlu, Cynghorwyr, Iechyd), a 1/3 o gynrychiolwyr Busnes a Gwirfoddol (er enghraifft, sefydliadau gwirfoddol lleol, sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol a phobl fusnes leol).

ROLAU O FEWN PARTNERIAETH

Er mwyn i gyfarfodydd Partneriaeth redeg yn hwylus ac i sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud mae'n bwysig bod rolau a ddiffiniwyd yn glir ar gyfer y rheiny sy'n rhan o'r bartneriaeth.

Mae cadeirydd cryf yn hollbwysig er mwyn arwain cyfarfodydd a sicrhau bod pawb yn gallu lleisio'i farn a bod y cyfarfod yn rhedeg yn hwylus.

Er mwyn sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw o gyfarfodydd (mae hyn yn bwysig oherwydd atebolrwydd y Bartneriaeth), mae angen ysgrifennydd/person cadw cofnodion ar gyfer pob cyfarfod. Dylai cofnodion cyfarfodydd fod ar gael i holl aelodau'r Bartneriaeth cyn y cyfarfod nesaf, a dylid cywiro unrhyw gamgymeriadau yn y cyfarfod nesaf.

Bydd hyfforddiant ar gael ar gyfer aelodau'r Bartneriaeth/ Grŵp Llywio ac **mae cyfarfodydd y Bartneriaeth/Grŵp Llywio yn agored i'r cyhoedd.**

Am fod yn rhan o hyn?

Os hoffech fod yn rhan o gynllun Cymunedau'n Gyntaf yn eich ardal chi, cysylltwch â Thîm Cymunedau'n Gyntaf ar 01639 873030; neu Andrew Millard, Swyddog Rhwydwaith Cymunedau'n Gyntaf (CGG) ar 01639 631387.

Ymwadiad: Lluniwyd y llythyr newyddion hwn gan Dîm Cymunedau'n Gyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Nid yw'r farn a fynegir yn y daflen hon o reidrwydd yn cynrychioli barn CBSCNPT, ei Aelodau na'i Bartneriaid, na phartïon eraill cysylltiedig.